

Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig
Bwyta'n Iach mewn Ysgolion



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

16 Mai 2008

Annwyl Gyfaill

Ymgynghoriad - Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion

Sefydlwyd Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion ('y Pwyllgor') ar 30 Ebrill 2008 i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008 ('y Mesur arfaethedig') a chyhoeddi adroddiad arno. Gellir gweld manylion y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef drwy'r linc canlynol

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-meas-hes.htm>. Os byddai'n well gennych gael copïau caled o'r dogfennau ymgynghori, cysylltwch â'r Swyddfa Ddeddfwriaeth. Ceir y manylion cyswllt isod.

Fel sail i'w waith, byddai'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig ar y canlynol, gan rai sydd â diddordeb:

1. A oes angen Mesur Cynulliad i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion o ystyried bod mentrau eisoes yn bodoli yn y maes polisi hwn?
2. A ydych yn cefnogi'r darpariaethau allweddol a nodir yn y Mesur arfaethedig, h.y.
 - y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, cyrff llywodraethu, penaethiaid ac awdurdodau addysg lleol i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion;
 - dylai bwyta'n iach fod yn rhan o'r drefn arolygu a dylai gynnwys gofynion adrodd ar Weinidogion Cymru, Y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a chyrff llywodraethu;
 - pŵer Gweinidogion Cymru i bennu safonau maethiad, gan gynnwys yr angen i bennu lefelau uchafswm halen, siwgr ac ychwanegion artiffisial mewn bwyd a diod a ddarperir ar gyfer disgyblion ar fangre ysgol;
 - annog disgyblion i fwyta cinio ysgol a diogelu hunaniaeth y rhai sy'n ei gael am ddim; a'r
 - ddyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i sicrhau bod dŵr yfed ar gael i ddisgyblion.

Ffon / Tel: 029 2089 8025
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

3. Beth yw oblygiadau ymarferol rhoi'r darpariaethau hyn ar waith?
4. A hoffech chi weld rhagor o ddarpariaethau'n cael eu hychwanegu at y Mesur Cynulliad arfaethedig?
5. Ydych chi'n credu y bydd y Mesur Cynulliad arfaethedig yn cyflawni ei ddiben a'i nod cyffredinol, h.y. i alluogi datblygiad a gweithrediad polisi cyfannol, cynhwysfawr, wedi'i wneud yng Nghymru ar faeth mewn ysgolion?

Os ydych yn dymuno cyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad at y swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk a rhoi'r teitl *Ymgynghoriad Mesur Bwyta'n Iach*. Pe byddai'n well gennych anfon eich cyflwyniad fel copi caled, anfonwch ef at Ruth Hatton, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai cyflwyniadau gyrraedd erbyn dydd Gwener 20 Mehefin 2008. Ni fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y broses ddeddfu ar:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm>

Wrth baratoi eich cyflwyniad cofiwch y pwyntiau canlynol os gwelwch yn dda:

- dylai eich ymateb fod mor gryno ag sy'n bosibl. Rhowch gyfeirnod ar eich ymateb gan ddefnyddio'r teitl a nodwyd uchod;
- mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn arferol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ar gael i gael eu craffu gan y cyhoedd a gallant hefyd gael eu gweld a'u trafod gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd pwyllgor. Os nad ydych am i'ch ymateb neu'ch enw gael ei gyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn pwysleisio hyn yn glir yn eich cyflwyniad;
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn, os gwelwch yn dda;
- nodwch os gwelwch yn dda a fyddech yn barod i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Ffon / Tel: 029 2089 8025
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg a bydd yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor yr hydref.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Liz Wilkinson, Clerc y Pwyllgor ar 029 2089 8025 neu Ruth Hatton Dirprwy Glerc ar 029 2089 8019.

Yn gywir



Kirsty Williams AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Ffon / Tel: 029 2089 8025
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk